Yousef Nadarkhani – Tystiolaeth a Dedfryd

‘Rydym ni i gyd yn gyfarwydd â’r cwestiwn hwnnw bellach, yr un sy’n gofyn i ni ystyried, pe baem yn cael ein herlyn am fod yn Gristnogion, a fyddai yna ddigon o dystiolaeth i’r barnwr allu’n canfod yn euog? ‘Rydw i’n rhyw ofni mai ‘dieuog’ fyddai penderfyniad y rheithgor yn fy achos i, ac y cawn fy ngollwng yn rhydd o’r llys oherwydd bod y dystiolaeth, ar y gorau, yn amgylchiadol.

Ydw, ‘rydw i’n proffesu ’mod i’n Gristion, yn mynd i’r capel (ddim yn ddigon aml), yn darllen fy Meibl (heb fod yn agos at ddigon aml), ac yn gweddïo (pan fydd arna’ i angen rhywbeth). Ond fe soniodd ein Gweinidog yn ddiweddar am yr angen am fod yn Gristion mewn gweithred, yn ogystal ag mewn gair neu mewn meddwl. Does yna ddim hanner digon o fy ngweithredoedd i yn cael eu gwneud ar y sail eu bod yn fy helpu i fyw bywyd bob dydd yn fwy fel Iesu, neu ’mod i’n gwneud rhywbeth dros eraill yn hytrach na throsof fy hun.

Roedd rhyw feddyliau felly eisoes yn chwarae ar fy meddwl pan ddes i ar draws stori ar wefan *Twitter*, yn sôn am ddyn o Iran o’r enw Pastor Yousef Nadarkhani (llun), gŵr a thad 34 oed. Daeth yn Gristion pan oedd yn 19, a bellach mae’n fugail ar nifer o eglwysi bychain yn ei ardal. Bu’n wynebu’r gyfraith ers 2009 ar gyhuddiadau’n ymwneud â’i Gristnogaeth.

Cafodd y gŵr hwn dri chyfle gan y llys i wadu ei ffydd. Mae hanes Pedr a chân y ceiliog yn anochel o ddod i’r cof; ond rywsut daeth Yousef Nadarkhani o hyd i’r nerth i wrthod, deirgwaith, a dal i broffesu ei ffydd yng Nghrist ar goedd. Gwyddai ei fod, o wneud hynny, yn wynebu marwolaeth, ac yn wir daeth y ddedfryd yn fuan wedyn. Yn amlwg, yr oedd digon o dystiolaeth i’w gyhuddo o fod yn Gristion.

Serch hynny, mae’r ddedfryd yn un gwbl anghyfreithlon yn rhyngwladol, ond yn fwy na hynny mae’n groes i gyfraith a chyfansoddiad Iran ei hun. Er mwyn cyfiawnhau’r ddedfryd eithaf, ychwanegodd yr awdurdodau gyhuddiadau o dreisio a throseddau’n ymwneud â diogelwch cenedlaethol at y cyhuddiadau y gellid eu profi.

Gallai’r ddedfryd hon gael ei gweithredu unrhyw bryd yn y dyfodol agos. Ar waelod y stori, roedd ffurflen y gellid ei llenwi gydag apêl at lysgennad Iran yn gofyn ar ei lywodraeth i ollwng y ddedfryd. Gollwng y *ddedfryd*, sylwer - Nadarkhani fyddai’r olaf i ddymuno i’r *cyhuddiad* o fod yn Gristion gael ei ollwng yn ei erbyn. Agorais y ddolen, a dechreuais ysgrifennu; ond wedyn, dyma

guddio'r dudalen y tu ôl i rywbeth arall. Yn y munud, meddwn i – '*mi wna i o pnawn 'ma*'.

Dim ond gweld llun o Yousef Nadarkhani gyda'i fab a'm sbardunodd yn y diwedd i orffen y llythyr. Cryn bum munud o'm diwrnod gymerodd hynny i mi. Mae miloedd o bobl wedi apelio at lysgenhadon Iran ar draws y byd i wneud hynny, gan gynnwys ffigyrau cyhoeddus fel Archesgob Caergaint a William Hague yr Ysgrifennydd Tramor. Daeth yr hanes ddiwrnod neu ddau yn ôl fod cyfreithiwr Yousef bellach yn weddol ffyddiog y câi'r ddedfryd ei gollwng.

Gweithred fechan a dinod oedd llenwi'r ffurflen honno ac anfon fy apêl bersonol i, ond dangosodd sut y gall y weithred leiaf wneud gwahaniaeth os oes digon o bobl yn cyflawni'r weithred honno. Ar ôl anfon y neges, derbyniais e-bost gan y mudiad y tu ôl i'r trefnu yn gofyn un ffafr arall - fy mod yn gweddïo dros Yousef Nadarkhani, a thros yr awdurdodau er mwyn iddyn nhw ollwng y ddedfryd. Weithiau mae Duw yn cynnig cyfleoedd mor hawdd i ni weithredu fel na all hyd yn oed y Cristnogion mwyaf diog ohonom - finnau'n bennaf ohonynt - ond ufuddhau.

Llŷr Lewis